NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Brolucizumab gamma ar gyfer trin dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig ag oedran

04 Rhagfyr 2024

Mae bevacizumab gamma (Lytenava) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer dirywiad macwlaidd gwlyb sy’n gysylltiedig ag oedran mewn oedolion, os yw'r canlynol yn wir yn y llygad sy'n cael ei drin:

- bod y craffter golwg a gywirwyd orau (y gallu i weld manylder yn bell) rhwng 6/12 a 6/96
- nad oes niwed parhaol i strwythur y ffofea canolog (y rhan o'r llygad sy'n helpu pobl i weld pethau yn fanwl gywir)
- bod yr ardal y mae dirywiad macwlaidd sy’n gysylltiedig ag oedran yn effeithio arni dim mwy na 12 gwaith maint y disg optig (y rhan o'r llygad lle mae'r nerf optig yn cysylltu â'r retina)
- bod arwyddion bod y cyflwr wedi bod yn gwaethygu.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os byddwch yn dymuno. Gweler ein tudalen we ar wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

NICE National Institute for Health and Care Excellence

**Gwybodaeth a chymorth**

Gall tudalen we y GIG ar ddirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig ag oedran fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Y Gymdeithas Facwlaidd, 0300 3030 111
- RNIB, 0303 123 9999

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

© **NICE 2026**. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

ISBN: 978-1-4731-9495-3